

CYNLLUN TREF AC ARDAL CORWEN AC EDEYRNION

“EDRYCH YMLAEN GYDA’N GILYDD”

2013 – 2020

Diweddarwyd 12/11/2013

CYNNWYS:

Rhagarweiniad	T.3
Cynllun Tref Corwen	T.4
Cysylltiadau rhwng y Dref a'r Ardal	T.14
Cynllun Ardal Edeyrnion	T.15
Blaenoriaethau'r Cynllun Ardal	T.22

Rhagarweiniad

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi mabwysiadu nod strategol o fod yn “gyngor sy’n perfformio’n dda yn nes at y gymuned”.


Er mwyn cynorthwyo i gyflawni’r nod hwn, gwahoddodd y Cyngor Sir yr holl gynghorau tref a chymuned a’r busnesau, sectorau cymunedol a gwirfoddol ym mhob un o’u prif drefi a chymunedau llai sy’n gysylltiedig â hwy i uno gyda’i gilydd i ddatblygu “cynlluniau tref”. Bydd y rhain yn ddogfennau byw fydd yn amodol ar adolygiadau rheolaidd ac yn gosod

- **Y sefyllfa bresennol yn y trefi**
- **Y sialensiau a’r cyfleoedd allweddol y byddant yn eu hwynebu yn y ddegawd nesaf**
- **gweledigaeth ar gyfer pob tref i’w darparu â dyfodol cynaliadwy, a**
- **camau realistig a chyraeddadwy a fydd yn cyflawni’r weledigaeth honno.**

Felly yn 2011/12, datblygodd Cyngor Sir Ddinbych Gynllun Tref ar gyfer Corwen a oedd yn nodi anghenion a blaenoriaethau cymunedol ar gyfer y dref. Fodd bynnag, nid oedd yn mynd i’r afael ag anghenion a blaenoriaethau’r cymunedau gwledig llai sy’n gysylltiedig â Chorwen. Cytunodd y Cyngor yn 2013 i ymestyn y Cynllun i gynnwys y cymunedau mwy gwledig hyn.

Gyda’i gilydd, mae’r dogfennau yn ffurfio Cynllun Tref Corwen ac Ardal Edeyrnion.





CYNLLUN TREF CORWEN

“EDRYCH YMLAEN GYDA’N GILYDD”

2013 – 2020

Diweddarwyd 20/10/2013

CORWEN

Mae Corwen yn sefyll wrth odre Mynyddoedd y Berwyn ym mhen gorllewinol Dyffryn Dyfrdwy. Mae Corwen yn enwog am ei chysylltiad cryf gydag Owain Glyndŵr, un o arwyr enwocaf Cymru, gan mai Corwen a'r ardal o gwmpas oedd ei famwlad deuluol. Mae Cymdeithas Owain Glyndŵr yn grŵp cymunedol sefydledig yn y dref.

Mae gan Gorwen a'r ardal o'i chwmpas nifer o adeiladau hanesyddol diddorol fel Eglwys Llangar, Capel y Rug, Gwesty Owain Glyndŵr, Eglwys y Seintiau Mael a Sulien a Chorwen Manor a oedd yn wyrwys yn wreiddiol.

Mae Corwen o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ac ar lannau'r Afon Ddyfrdwy. Mae bryngaer Caer Drewyn yn un o'r bryngaerau Oes Haearn sydd wedi'i chadw orau yng Nghymru. Mae amrywiaeth o lwybrau cerdded yn rhoi mynediad at harddwch naturiol yr ardal.

Mae gan Gorwen ganolfan Hamdden gyda phwll nofio, ystafelloedd ffitrwydd a sawna, cyrtiau sboncen a maes pob tywydd. Mae yna Bafiliwn Chwaraeon gyda meysydd chwarae ac fe gafwyd buddsoddiad mawr mewn offer chwarae ym Mharc Coffa'r Rhyfel cyfagos. Mae Canolfan Blas ar Fyw yn y dref gyda gofod swyddfa gweithio ar y cyd wedi'i sefydlu i'w ddefnyddio gan wahanol sefydliadau.

Mae Ifor Williams Trailers yn gyflogwr mawr yn ardal Corwen ynghyd â Choedwigaeth Corwen, Wholebake, Bart Spices, Ruth Lee a'r ardal amaethyddol. Mae Stad y Rug i'r gorllewin o Gorwen â siop fwyd organig a bwyty a dyma hefyd leoliad cystadleuaeth gneifio defaid "Cneifio Corwen Shears" sy'n digwydd bob blwyddyn ar ddiwedd Gorffennaf.

Mae cefnffordd yr A5 yn rhedeg drwy ganol tref Corwen.

Poblogaeth tref Corwen ydi 2,325.

Mae'r dref hefyd yn gwasanaethu nifer o bentrefi ac aneddiadau gwledig yn cynnwys Cynwyd, Llandrillo, Carrog, Glyndyfrdwy, Gwyddelwern, Betws Gwerfyl Goch, Melin y Wig a Bryneglwys ac mae'r cymunedau hyn yn gartref i 2,330 o bobl eraill.

Lle'r ydyn ni rŵan

(Dangosir yr union ffigurau yn yr Atodiad Ystadegol)

Pobl

O'i gymharu â'r sir gyfan mae gan ward Corwen

- Llai o bobl sydd dros 65 oed (ac mae yna gryn dipyn yn llai yn nhref Corwen),
- Yr un canran o bobl dros 85 oed,
- Mwy o bobl ifanc dan 15 oed,
- Mwy o aelwydydd yn hawlio budd-dal tai neu dreth y cyngor, ac
- mae llai o aelwydydd yn orlawn.

Cymuned


O'i gymharu â'r sir gyfan, mae mwy o bobl yn nhref Corwen

- Wedi'u geni yng Nghymru, ac
- Mae cryn dipyn yn fwy o bobl yn gallu siarad Cymraeg.

Mae'r raddfa troseddu yng Nghorwen yn is na'r raddfa gyfartalog ar gyfer y Sir, yn enwedig o ran digwyddiad o drais yn erbyn unigolyn, difrod troseddol a dwyn a thrin.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio fformiwla i fesur amddifadedd. Mae Cymru wedi'i rhannu'n 1896 o ardaloedd sy'n llai na wardiau'r Cyngor Sir a elwir yn "Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is". Yna fe gaiff pob ardal ei graddio gan roi sgôr o 1 i'r mwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig â sgôr o 1896. Nid yw'r sgorau mewn blynyddoedd gwahanol yn uniongyrchol gymharol gan fod y ffordd y cyfrifir y mynegai'n newid dros amser.

Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is	Gradd yn 2005	Gradd yn 2008	Gradd yn 2011
Corwen 1	1094	1074	1161
Corwen 2	907	963	940



Map yn dangos Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is yng Nghorwen

Swyddi

O'i gymharu â'r Sir gyfan,

- Mae canran uwch o bobl yn gweithio mewn cynhyrchu
- Mae canran uwch o bobl yn gweithio mewn amaethyddiaeth
- Mae mwy o bobl yn cymudo dros 20km i'r gwaith, ac
- Mae canran is o bobl oed gwaith yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.

Mae incwm blynyddol cyfartalog yng Ngorwen yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y Sir.

Y Lle

Ar hyn o bryd mae Corwen ag un o'r canrannau uchaf yn y Sir o unedau manwerthu gwag yng nghanol y dref. Mae'r ffigwr hwn hefyd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, fe gafwyd ymholiadau am o leiaf dri o'r unedau neu maent yn cael eu datblygu ac unwaith y bydd y rhain yn cael eu defnyddio eto fe fydd cyfradd yr unedau gwag yn is o lawer na chyfradd y Sir a'r Deyrnas Unedig.

Cyfraddau'r safleoedd manwerthu gwag – Hydref 2011

Corwen	15.6%	(7Uned)
UK	13.3%	(Colliers International)

Y prif atyniad i ymwelwyr yn ardal Corwen ar hyn o bryd ydi Stad y Rug, gydag oddeutu 350,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Disgwylir hefyd y bydd y rheilffordd yn boblogaidd iawn unwaith y bydd wedi cyrraedd y dref. Mae'r rheilffordd i Garrog yn cario oddeutu 100,000 o deithwyr y flwyddyn ar hyn o bryd.

Mae yna 44 o welyau mewn llety graddedig i ymwelwyr yn y dref ac mae yna "fwyty gydag ystafelloedd" 5* gerllaw yn Llandrillo.

Mae cynnig ar gyfer Cynllun Hydro yn y dref.

Sialensiau a chyfleoedd y dyfodol

Pobl

Mae darpariaeth ysgolion cynradd yn cael ei hadolygu yn yr ardal ar hyn o bryd.

Cymuned

Mae diffyg adeiladau cymunedol yn y dref.

Mae'r Pafiliwn mewn cyflwr peryglus.

Nid oes yna fynediad i'r anabl i'r llawr cyntaf yn y Llyfrgell / Siop Un Stop.

Mae Tŷ Clwb y Lleng Brydeinig mewn cyflwr gwael ond yn dal i gael ei ddefnyddio.

Mae yna grwpiau 'Beavers' a 'Cubs' ffyniannus yn y dref.

Mae darpariaeth amwynderau dinesig ar gyfer gwaredu gwastraff y cartref yn wasanaeth cyfyngedig iawn ar hyn o bryd.

Swyddi

Mae adeiladu estyniad i reilffordd Llangollen a phlatfform newydd dros dro ar gyfer 4 car i'r dwyrain o ganol y dref i'w cwblhau yn 2014. Disgwylir cynnydd mewn ymwelwyr hyd at 90,000 pan fydd yr estyniad i'r rheilffordd wedi'i gwblhau.

Mae yna ddyhead ymysg sefydliadau lleol i ddatblygu a gweithredu cyfleusterau ymwelwyr a fyddai'n ategu estyniad y rheilffordd yn cynnwys amgueddfa reilffordd newydd ac atyniad yn y cyn gapel cyfagos.

Byddai estyniad pellach yn dod â'r rheilffordd yn nes at ganol y dref a byddai hynny'n annog teithwyr i ddisgyn a threulio mwy o amser yng Nghorwen. Byddai cynnwys platfform 8 car a dolen yn yr ail estyniad yn caniatáu i'r trenau gael eu tynnu gan locomotifau stêm i'r dref a hynny'n cynnig mwy o atyniad yn gyfan gwbl.

Y Lle

Mae yna rai brandiau cryf yn gysylltiedig â'r ardal yn cynnwys Ifor Williams Trailers, Fferm Organig Stad y Rug a Rheilffordd Llangollen.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi nodi ei barodrwydd i ran-ariannu helpa gelf yng Nghorwen.

Mae Commerce House sy'n eiddo preifat, yn adeilad amlwg ar yr A5 ac mae mewn cyflwr gwael iawn.

Mae yna bosibilrwydd o ddatblygu Llwybr Owain Glyndŵr gan Gymdeithas Owain Glyndŵr.

Mae angen sylw i ymddangosiad adeilad yr hen orsaf dân.

Mae cerbydau mawr a thrwm yn defnyddio llwybr cul y Lôn Las a hynny'n achosi tagfeydd. Gellid datrys hynny, o bosib, drwy eu cyfeirio at ddefnyddio llwybr gwahanol yn dilyn y gwelliannau i'r gyffordd a reolir gan oleuadau traffig i'r gorllewin o'r dref.

Mae'r llyfrgell a'r Siop Un Stop wedi cau ar ddydd Mercher a phrynhawn Gwener ac fe allai'r rheini fod yn ddyddiau prysur ar gyfer y rheilffordd sydd i ddod.

Gweledigaeth ar gyfer Corwen

Rydym ni am i Gorwen

- **gynnig ansawdd bywyd i'w chwennych ac a fydd yn atyniadol i breswylwyr o bob oed,**
- **fod â'r ystod o gyfleusterau cymunedol a gwasanaethau cludiant sy'n ofynnol i ddelio ag ynysrwydd cymharol y dref oddi wrth y canolfannau poblogaeth mwy,**
- **fod yn brif ganolfan cynhyrchu yn ne'r sir, a**
- **cynnig profiad ardderchog i ymwelwyr â'r ardal**

Gwneud iddo ddigwydd....

Ar gyfer pobl

Yr hyn rydyn ni am ei gyflawni	Byddwn yn cyflawni hyn drwy	Caiff ei arwain gan	O fewn
Gwelliant mewn cyflawniad addysgol.	Cwblhau estyniad a gwelliannau i'r ysgol fro yng Nghynwyd.	Moderneiddio Addysg y Cyngor Sir	1-5 mlynedd
	Newid statws iaith Ysgol Caer Drewyn ac Ysgol Carrog i ddod yn ysgolion dwyieithog i gynyddu defnydd yr iaith Gymraeg yn yr ysgolion hyn.	Moderneiddio Addysg a Gwella Ysgolion y Cyngor Sir	1-5 mlynedd
	Sicrhau cyllid ar gyfer mân welliannau i ysgolion eraill yn yr ardal	Moderneiddio Addysg y Cyngor Sir	1-5 mlynedd
Bodloni anghenion tai pobl leol o bob oed	Ymchwilio darpariaeth unedau fforddiadwy mewn unrhyw ddatblygiadau preswyl	Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor	5-10 mlynedd
	Ymchwilio i unedau gofal ychwanegol ar gyfer pobl hŷn	Tai'r Cyngor Sir / Gwasanaethau Oedolion a Busnes / Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig	5-10 mlynedd

Gwneud iddo ddigwydd...

Ar gyfer y gymuned

Yr hyn rydyn ni am ei gyflawni	Byddwn yn cyflawni hyn drwy	Caiff ei arwain gan	O fewn
Mwy o gyfleusterau a gwell cyfleusterau ar gyfer defnydd y gymuned	Sicrhau cyllid i weithredu canfyddiadau Astudiaeth Ddichonoldeb i ganfod anghenion a dyheadau'r bobl leol yn enwedig o ran defnydd ar gyfer adeiladau a mannau agored cyhoeddus.	Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych	1 blwyddyn
	Pennu dyfodol safle'r Pafiliwn	Hamdden, Llyfrgelloedd a Datblygu Cymunedol CSDd, Cyngor Tref, Partneriaeth Corwen	1-5 mlynedd
Mynediad haws at gyfleusterau gwaredu gwastraff y cartref	Ymchwilio i ddichonolrwydd gwell darpariaeth amwynder dinesig.	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol y Cyngor Sir	1-5 mlynedd
	Ymchwilio llefydd gwahanol i barcio'r graeanydd.	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol y Cyngor Sir	1-5 mlynedd

Gwneud iddo ddigwydd...

Ar gyfer swyddi

Yr hyn rydyn ni am ei gyflawni	Byddwn yn cyflawni hyn drwy	Caiff ei arwain gan	O fewn
Uchafu'r manteision i'r dref oherwydd estyniad Rheilffordd Llangollen	Comisiynu astudiaeth i fuddiannau'r rheilffordd i Gorwen; dichonolrwydd/buddiannau estyniad pellach; ystyried yr hyn sydd angen i Gorwen ei wneud er mwyn sicrhau bod y dref a'r rheilffordd yn elwa.	Datblygu Economaidd a Busnes CSDd	1 blwyddyn

Gwneud iddo ddigwydd...


Ar gyfer y lle

Yr hyn rydyn ni am ei gyflawni	Byddwn yn cyflawni hyn drwy	Caiff ei arwain gan	O fewn
Bydd y dref yn edrych yn fwy deniadol fyth	Ymdrin â safleoedd ac adeiladau blêr fel y Commerce House.	Datblygu Cymunedol a Thai'r Cyngor Sir	1-5 mlynedd
Caiff yr ymwelwyr brofiad ardderchog	Ailwampio a chael pobl i ofalu am doiledau'r Lôn Las ar gyfer y cynnydd a ddisgwylir yn niferoedd yr ymwelwyr.	Llywodraeth Cymru	1-2 flynedd
	Adolygu arwyddion yn yr ardal	Datblygu Cymunedol a Thai'r Cyngor Sir	1-2 flynedd
	Ymchwilio i ddatblygu cysylltiadau da â Fferm Organig Stad y Rug sydd eisoes yn denu niferoedd mawr o ymwelwyr.	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol y Cyngor Sir	1-5 mlynedd
	Gwella llif traffig drwy gyflwyno rheoliadau newydd ar yr A5.	Cyngor Cymuned Corwen	1-5 mlynedd

Cysylltiadau rhwng y Dref ac Ardal Edeyrnion

Datblygodd Corwen mewn croesffordd naturiol yn Nyffryn Edeyrnion. Mae'r dref yn ganolbwynt ar gyfer y pentrefi canlynol ac mae cysylltiad naturiol rhyngddynt â Chorwen: Cynwyd, Llandrillo, Gwyddelwern, Betws Gwerfyl Goch, Melin y Wig, Bryneglwys, Carrog a Glyndyfrdwy. Mae enw ardal Edeyrnion yn deillio o amseroedd canoloesol cynnar.

Mae'n ardal wledig yn bennaf gydag eglwysi canoloesol yma ac acw ac mae'r Afon Ddyfrdwy a'r rheilffordd Treftadaeth yn rhan o'r ardal. Mae'n adnabyddus am gefnogi'r Eisteddfodau ac fe gynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd cyntaf yng Nhorwen yn 1929. Mae tiroedd teulu Owain Glyndŵr yma ac mae'n cael ei gofio bob blwyddyn ym mis Medi ar ddyddiad ei arwisgo fel Tywysog Cymru yn 1400.





Cynllun Ardal Edeyrnion

Cynwyd, Llandrillo, Gwyddelwern, Betws Gwerfyl Goch,
Melin y Wig, Bryneglwys, Carrog a Glyndyfrdwy.

"EDRYCH YMLAEN GYDA'N GILYDD"

2013 – 2020

Diweddarwyd 12/11/2013

Gwneud iddo ddigwydd...

Ar gyfer y bobl a'r gymuned

Gweithgarwch	Cyf. Strategaeth Uchelgais Economaidd	Canlyniad	Arweiniwyd gan	Dechrau	Gorffen
Ymchwilio i gefnogi'r gymuned i ganfod defnydd menter gymunedol ar gyfer adeiladau gwag e.e. yr ysgol sydd wedi cau yng Nglyndyfrdwy a'r ysgolion sydd ar fin cau yn Llandrillo a Bryneglwys.	5.2 3.3	Sefydlu grŵp cymunedol	CGGSDd	1 Rhagfyr 2013	31 Rhagfyr 2015
		Cyfarfod(ydd) gyda Grŵp Menter Glyndyfrdwy.	Datblygu Economaidd a Busnes CSDd		
		Adroddiad / Achos Busnes	Grŵp Menter		
		CCanfod a sicrhau cyllid ar gyfer Astudiaeth Ddichonoldeb	Grŵp Menter		
		Canfod a sicrhau cyllid ar gyfer canlyniadau'r Astudiaeth	Grŵp Menter		
		Defnydd menter gymunedol newydd ar gyfer ysgol wag. (yn amodol ar Achos Busnes)	Grŵp Menter		
Ymchwilio i gefnogi gwelliannau i neuadd bentref a chymunedol e.e. llwyfan a system sain ar gyfer Betws Gwerfyl Goch. Gwelliannau cyffredinol yng Ngwyddelwern a Melin y Wig.		Cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned	Asedau a Chymunedau CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2017
		Adroddiad / Achos Busnes	Asedau a Chymunedau CSDd		
		Canfod a sicrhau cyllid.	Asedau a Chymunedau CSDd		
		Gwell neuaddau (yn amodol ar Achos Busnes).	Asedau a Chymunedau CSDd		
Annog sefydlu clybiau newydd e.e. Clwb Ieuencid ym Metws Gwerfyl Goch / Melin y Wig		Cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned.	Llyfrgelloedd, Celfyddydau a Phobl Ifanc CSDd	1 Rhagfyr 2013	31 Rhagfyr 2014
		Adroddiad / Achos Busnes	Llyfrgelloedd, Celfyddydau a Phobl Ifanc CSDd		
		Canfod a sicrhau cyllid	Llyfrgelloedd, Celfyddydau a Phobl Ifanc CSDd		
		Clwb Ieuencid Newydd (yn amodol ar achos busnes).	Llyfrgelloedd, Celfyddydau a Phobl Ifanc CSDd		

Cefnogi creu grŵp anffurfiol o Gyngorau Cymuned ar gyfer ardal Edeyrnion i gynorthwyo gydag e.e. ceisiadau grant a materion cyffredin.		Cyfarfod cychwynnol wedi'i gynnal ac wedi sefydlu egwyddor	Cyngorau Cymuned	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
Ymchwilio i gefnogi gwelliannau i gaeau chwarae: -Darparu 'llwybr teneuo' yng Ngharrog.		Cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned	Gwasanaethau Parth Cyhoeddus CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Adroddiad / Achos Busnes	Gwasanaethau Parth Cyhoeddus CSDd		
		Canfod a sicrhau cyllid	Gwasanaethau Parth Cyhoeddus CSDd		
		Darparu llwybr teneuo (yn amodol ar achos busnes).	Gwasanaethau Parth Cyhoeddus CSDd		
Ymchwilio i gefnogi gwelliannau i gaeau chwarae: - Gwella cae chwarae'r ysgol yng Ngwyddelwern i'w wneud yn addas ar gyfer gemau rhwng ysgolion.		Cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned	Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Adroddiad / Achos Busnes	Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg CSDd		
		Canfod a sicrhau cyllid	Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg CSDd		
		Darparu llwybr teneuo (yn amodol ar achos busnes).	Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg CSDd		
Ymchwilio i gefnogi gwelliannau i fannau chwarae ym Metws Gwerfyl Goch a Melin y Wig.		Cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned.	Tai a Datblygu Cymunedol CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Adroddiad / Achos Busnes	Tai a Datblygu Cymunedol CSDd		
		Canfod a sicrhau cyllid	Tai a Datblygu Cymunedol CSDd		
		Darparu gwelliannau (yn amodol ar achos busnes).	Tai a Datblygu Cymunedol CSDd		
Canfod cefnogaeth ar gyfer cynnal Bws-Hyblyg (galw cerbyd) yn ardal Betws Gwerfyl Goch / Melin y Wig ac ystyried estyniad arfaethedig.	1.1	Cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned.	Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2017
		Adroddiad / Achos Busnes	Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
		Canfod a sicrhau cyllid	Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		

		Cefnogi ac ymestyn y Bws—Hyblyg (yn amodol ar achos busnes).	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
Cefnogi cymuned i ganfod arian i drwsio wal mynwent yn Eglwys Gwyddelwern.		Cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned.	Strydwedd CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Adroddiad	Strydwedd CSDd		
		Canfod a sicrhau cyllid	Cyngor Cymuned/ Plwyf		
		Wedi trwsio'r wal.	Cyngor Cymuned/ Plwyf		
Yn seiliedig ar anghenion tai lleol canfod darpariaeth tai fforddiadwy addas mewn datblygiadau preswyl a thrwy ganfod cyfleoedd tir newydd.		Adroddiad / Achos Busnes	Tai Cymunedol CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2020
		Canfod a sicrhau cyllid	Tai Cymunedol CSDd		
		Darparu tai addas (yn amodol ar achos busnes).	Tai Cymunedol CSdd		

Gwneud iddo ddigwydd...

Ar gyfer swyddi

Gweithgarwch	Cyf. Strategaeth Uchelgais Economaidd	Canlyniad	Arweiniwyd gan	Dechrau	Gorffen
Edrych ar ffynonellau hyfforddiant a chefnogaeth ymarferol er mwyn helpu'r gymuned i sefydlu diwydiannau cartref cynaliadwy ym meysydd fel twristiaeth neu weithgareddau awyr agored lle y gwnaed ychydig o gynnydd eisoes.	4.1 5.2	Adroddiad / Achos Busnes	EBD CSDd	1 Rhagfyr 2014	31 Mawrth 2020
		Canfod a sicrhau cyllid	EBD CSDd		
		Sicrhau hyfforddiant a chefnogaeth.	EBD CSDd		
Llunio rhestr o ffynonellau defnyddiol i helpu cymunedau ddatblygu mentrau cynaliadwy.	5.2.	Gwybodaeth wedi'i gasglu.	CGGSDD/ EBD	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Wedi cyhoeddi gwybodaeth ar wefan CSDd	Gwasanaethau Cwsmer CSDd		
		Gwybodaeth wedi'i hyrwyddo	Cyrchfan, marchnata a chyfathrebu CSDd		
Adain Twristiaeth a thîm Marchnata Cyrchfannau a Chyfathrebu Cyngor Sir Ddinbych i weithio gyda grwpiau lleol ar fentrau cymdeithasol ac i edrych ar fentrau naws am le i annog twristiaeth gynaliadwy mewn ardaloedd gwledig.	6.2	Annog grwpiau lleol i ymuno â phroses rheoli cyrchfan	Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2020
		Adroddiad / Achos Busnes	Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu CSDd		
		Canfod a sicrhau cyllid	Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu CSDd		
		Darparu mentrau naws am le	Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu CSDd		
Gwella signal ffôn symudol a band eang	1.2	Band Eang Cyflym i'r holl adeiladau	EBD CSDd	1 Rhagfyr 2013	1 Ebrill 2014
Ceisio denu amrywiaeth o fanwerthwyr (gan gynnwys siopau 'brand' pan fo modd), i Gorwen i'w wneud yn lle mwy deniadol i'w ymweld ac ar gyfer busnes.	5.1 5.2	Adroddiad / Achos Busnes	EBD CSDD	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2020
		Canfod a sicrhau cyllid	EBD CSDD		
		Corwen yn lle mwy deniadol i'w ymweld ac ar gyfer busnes	EBD CSDD		

Gwneud iddo ddigwydd...

Ar gyfer y lle

Gweithgarwch	Cyf. Strategaeth Uchelgais Economaidd	Canlyniad	Arweiniwyd gan	Dechrau	Gorffen
Cyngorau Cymuned yn rhan o flaenoriaethu trwsio lonydd a chynnal a chadw.		Priffyrdd i ofyn am flaenoriaeth ar gyfer cynnal a chadw gan y Cyngor Cymuned.	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Amserlen o welliannau Priffyrdd wedi'i chytuno	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
		Cyngor Cymuned i adrodd am faterion cynnal a chadw parhaus drwy wefan CSDd:- www.denbighshire.gov.uk/en/resident/parking-roads-and-travel/report-an-issue/report-an-issue.aspx	Cyngor Cymuned		
Edrych ar gael arwyddion 40mya ar y brif ffordd trwy Fryneglwys.		Cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned.	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Adroddiad / Achos Busnes	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
		Darparu arwyddion (yn amodol ar achos busnes).	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
Edrych ar gael arwyddion 20mya wrth ymyl yr ysgol yng Nghynwyd.		Cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned.	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Adroddiad / Achos Busnes	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
		Darparu arwyddion (yn amodol ar achos busnes).	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
Ystyried darparu llinellau dwbl melyn ar y ffordd yn arwain o'r A5 yn Llidiart y Parc at	1.1	Adroddiad / Achos Busnes	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2016

bont Carrog dros yr Afon Ddyfrdwy.		Trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
		Darparu llinellau dwbl melyn (yn amodol ar achos busnes)	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
Ystyried cyfyngiad cyflymdra ar ran o'r A5 (sy'n gefnffordd o dan reolaeth Llywodraeth Cymru), yn Llidiart y Parc.. Adolygu diogelwch y gyffordd gyda'r ffordd i Garrog a'r Orsaf Drenau gyda'r A5.		Adroddiad / Achos Busnes	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2016
		Trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
		Gwell diogelwch ar y rhan hon o'r A5 (yn amodol ar achos busnes)	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
Datrys materion baw cŵn: Cyngorau Cymuned i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych sydd â pholisi gweithredol i fynd i'r afael â throeddwy.		Cyngor Cymuned i adrodd digwyddiadau gan ddefnyddio gwefan CSDd:	Cyngorau Cymuned	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Materion baw cŵn wedi'u datrys	Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd CSDd		

Blaenoriaethau'r Cynllun Ardal

1. Cefnogi'r gymuned i ganfod defnydd menter gymunedol ar gyfer adeiladau gwag e.e. yr ysgol sydd wedi cau yng Nglyndyfrdwy a'r ysgolion sydd ar fin cau yn Llandrillo a Bryneglwys. Amcangyfrif o'r gost: 5k fel arian cyfatebol cais grant ar gyfer Astudiaeth Ddichonoldeb.
2. Annog sefydlu clybiau newydd e.e. Clwb Ieuenctid yn ardal Betws Gwerfyl Goch / Melin y Wig. Amcangyfrif o'r gost: Deunyddiau ac oriau staff ychwanegol 3k.
3. Edrych ar ffynonellau hyfforddiant er mwyn helpu'r gymuned i sefydlu diwydiannau cartref cynaliadwy ym meysydd fel twristiaeth a gweithgareddau awyr agored ond nid y meysydd hyn yn unig. Amcangyfrif o'r gost: 10k cyllid cyfatebol ceisiadau grant y prosiect.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni ar y trywydd cywir?

Bydd y Cyngor Sir, ynghyd â'r Cynghorau Tref a Chymuned, yn cynnal adolygiadau blynyddol ar y cynnydd. Bydd Grwpiau Aelodau Ardal y Cyngor Sir yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd a bydd Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg ac erthyglau yn Llais y Sir. Bydd y Cynllun yn ddogfen fyw lle gellir ychwanegu a dileu dyheadau yn dibynnu ar y sefyllfa.

Pwy sydd wedi llunio'r cynllun?

Cafodd y cynllun ei gynhyrchu gan Gyngor Sir Ddinbych yn dilyn ymgynghoriadau gyda Chynghorwyr Sir, gwasanaethau, aelodau'r Ward, Cynghorau Cymuned Cynwyd, Llandrillo, Carrog, Glyndyfrdwy, Gwyddelwern, Betws Gwerfyl Goch, Melin y Wig a Bryneglwys a'r gymuned ehangach.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag
econ.dev@denbighshire.gov.uk

Atodiad Ystadegol

Canran o ...	Yn y ward ar gyfer Corwen	yn Sir Ddinbych	Yn yr Ardal Wledig amgylcheddol
Pobl ifanc 15 oed neu lai	16.0	18.1	17.5
Pobl 65 oed neu fwy	19.8	21.1	19.9
Pobl 85 oed neu fwy	2.5	2.8	1.9
Pobl yn hawlio budd-dal tai neu dreth y cyngor	9.3	9.6	4.7
Tai gorlawn	2.5	3.0	0.7
Pobl wedi'u geni yng Nghymru	64.7	58.1	61
Pobl dros 3 oed sy'n gallu siarad, darllen neu ysgrifennu yn Gymraeg.	35.8	18.6	53
Trigolion sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus	30.1	35.7	30.2
Trigolion sy'n gweithio yn y diwydiant cynhyrchu	18.1	9.1	10.0
Trigolion sy'n gweithio ym myd amaethyddiaeth	5.4	2.3	10.0

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol
Mae Ward Corwen yn cynnwys Glyndyfrdwy a Charrog
Ardal Wledig yn cynnwys: Melin y Wig, Betws GG, Llandrillo, Cynwyd, Gwyddelwern a Bryneglwys.*